**EITEM AR YR AGENDA: 10**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 31ain Ionawr 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Gwneud argymhellion i'r aelodau ar ddyfodol Ystafell Reoli Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |

1. **CEFNDIR**

1.1 Wrth fynd â'r agenda foderneiddio ar gyfer y gwasanaeth tân ac achub yn ei blaen, mae Llywodraeth Prydain a Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi llawer o bwys ar ddyfodol yr ystafelloedd rheoli. Yn Lloegr, yn dilyn dau adroddiad ar y mater gan yr ymgynghorwyr Mott Macdonald, mae'r Llywodraeth wedi datblygu'r prosiect *FiRe (sic) Control* sy'n ymwneud â chael gwared ar yr 46 o ystafelloedd rheoli presennol a chael 9 o ystafelloedd rheoli rhanbarthol (gan gynnwys Llundain) yn eu lle, a fydd gyda'i gilydd yn rhan o strwythur newydd a fydd yn fwy cydnerth. Mae'r Alban yn destun adroddiad arall gan yr ymgynghorywr, ac roedd hwnnw hefyd yn ffafrio llai o ystafelloedd rheoli. Roedd adroddiad Mott Macdonal, yn argymell, o ran Cymru, gael un ystafell reoli "ranbarthol" ar gyfer Cymru gyfan (gweler paragraff 2.1).

1.2 Yng Nghymru, mae safbwynt y Cynulliad ar adroddiad Mott Macdonald a'r mater ehangach am yr ystafelloedd rheoli i'w weld ym mharagraff 3.6 o'r fersiwn sydd "bron yn derfynol" o'r ddogfen Fframwaith Cenedlaethol, sef:-

*'Ers cyhoeddi adroddiad Mott MacDonald, mae'r casgliad y dylai fod gan Gymru un ystafell reoli fel rhan o gyfres integredig o ystafelloedd rheoli rhanbarthol yn fater nawr i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cred y Cynulliad bod y cyd-destun yng Nghymru'n wahanol i'r un yn Lloegr. Yn dilyn yr ad-drefnu yn 1996, pryd y daeth yr wyth awdurdod tân yn dri, nid yw'r achos dros ragor o uno wedi cael ei wneud ac mae angen ystyried ymhellach ein cynlluniau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Fodd bynnag, rydym am i'r gwasanaeth tân ac achub ystyried trefniadau partneriaeth a chydweithio sy'n gwella effeithiolrwydd yn weithredol. Dylai hyn gynnwys cyfleoedd ar gyfer cydweithio â'r gwasanaethau brys eraill lle mae'n gwneud synnwyr iawn o ran effeithiolrwydd i'r ochr weithredol a'r gwerth gorau i bawb. '*
(cyfieithiad answyddogol)

1.3 Mae paragraff 3.7 o'r Fframwaith yn disgrifio cefnogaeth y Cynulliad i gydweithio a threfniadau rhannu adeiladau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru rhwng y tri phrif wasanaeth brys. Mae'r ddau baragraff hyn yn dangos bod gan Lywodraeth y Cynulliad ddymuniad cryf i'r gwasanaethau brys yng Nghymru gydweithio ar fentrau cydweithredol.

1. **CEFNDIR** *(parhad)*

1.4 Mae'r Awdurdod, trwy ei Gynllun Integredig Rheoli Risg eisoes wedi ymrwymo ei hun i edrych ar y posibilrwydd o gael ystafell reoli ar y cyd rhwng y gwasanaethau brys yng Ngogledd Cymru (tud. 20, adran 2 o'r "Materion").

2. **GWYBODAETH**

2.1 Mae'r diffyg cyfarwyddyd rhagnodedig canolog ar ddyfodol ystafelloedd rheoli'r gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru (yn wahanol i'r prosiect FiRe Control yn Lloegr, dyweder), yn rhoi cyfle i'r Awdurdod lunio ei ddyfodol ei hun yn hytrach na chael un wedi ei roi iddo. Mae adroddiad Mott Macdonald, a arweiniodd at y cynllun i gael 9 ystafell reoli yn Lloegr, hefyd yn argymell, heb unrhyw dystiolaeth arwyddocaol i'w gefnogi, gael un ystafell reoli "ranbarthol" ar gyfer Cymru. Barn y Cynulliad yw "nad yw'r achos wedi cael ei wneud". Barn y Prif Swyddog Tân yw y byddai creu un ystafell reoli ar gyfer Cymru o bosib yn niweidiol i'r lefel o wasanaeth a roddir ar hyn o bryd, yn enwedig o ran Gogledd Cymru, lle mae materion diwylliannol ac ieithyddol pwysig yn bod, yn ogystal â'r ystyriaethau gweithredol mwy cyffredinol.

2.2 Fodd bynnag, mae'n eglur fod yna fanteision arwyddocaol yn weithredol pan fo gwasanaethau brys yn rhannu'r un amgylchedd, fel y dangosir yn y Cynllun Risg ac a drafodwyd yn faith gan weithgor Cynllun Risg y Panel Gweithredol. Gellir gwneud penderfyniadau ar anfon allan yn gynt gan nad oes raid dibynnu ar un gwasanaeth yn rhoi gwybod i'r llall ar y ffôn am ddigwyddiad – dyma ffactor sy'n creu tensiynau ar hyn o bryd. Hefyd, oherwydd y swyddogaeth achub sydd bellach gan y gwasanaeth tân ac achub o ganlyniad i Ddeddf y Gwasanaeth Tân ac Achub 2004 a'r cyfrifoldebau ychwanegol sydd gan pob gwasanaeth brys yn dilyn y Dimensiwn Newydd sef terfysgaeth ers Medi 2001, mae gofyn sicrhau, ar unwaith ac yn hanfodol, fod digwyddiadau mawr, hirfaith a chymhleth yn cael eu rheoli mor effeithiol â phosib. A chymryd bod y protocolau amgylcheddol a gweithredol cywir mewn lle, dim ond gwella'r posibilrwydd o ymateb i'r cyhoedd ledled y tri gwasanaeth brys y byddai'r trefniant o ystafell reoli ar y cyd.

2.3 O ganlyniad i'r ymrwymiad yn y Cynllun Risg i edrych ar y posibilrwydd o gael ystafell reoli ar y cyd yng Ngogledd Cymru gyda'r prif wasanaethau brys eraill, mae trafodaethau rhagarweiniol wedi digwydd rhwng y Prif Swyddog Tân, y Prif Gwnstabl a Phrif Weithredwr Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru. Mae'r trafodaethau hyn wedi arwain at ymrwymiad cytûn i'r egwyddor o ystafell reoli ar y cyd yn seiliedig ar nifer o egwyddorion cytûn a fydd, os caiff y bwriadau gefnogaeth wleidyddol ym mhob un o'r tri gwasanaeth brys, eu troi yn brotocol tair-ffordd. Mae'r egwyddorion hyn yn cynnwys safbwynt gytûn am yr angen i beidio â chael rhwystrau corfforol rhwng y gwasanaeth mewn lle ar y cyd, a gwrthwynebiad cytûn i'r cysyniad o "aml-dasgio" (h.y. un gweithredydd yn derbyn galwadau ar gyfer unrhyw un o'r gwasanaethau brys).

2.4 Mae prosiect byr gan swyddogion y gwasanaeth tân ac achub ar gais y Prif Swyddog Tân wedi dangos y byddai, ar lefel ymarferol, yn bosib symud ystafell reoli Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i leoliad ar y cyd, heb lawer o drafferth. Mae'n bosib mynd â'r offer presennol i'r lle newydd. Wrth gwrs, mae yna faterion eraill i'w datrys ac mae'r prosiect wedi adnabod y rheini ar ôl gwneud ymchwil i wasanaethau tân ac achub eraill lle mae mentrau cydweithredol wedi cael eu cyflwyno. Bu'r gwaith hyn yn werthfawr, nid yn unig trwy weld pa mor effeithiol fyddai symud fel hynny, ond hefyd trwy ddysgu o'r camgymeriadau a wnaed mewn gwasanaethau eraill ac integreiddio'r pwyntiau dysgu hynny i waith yn y dyfodol.

3. **ARGYMHELLION**

3.1 Bod y Panel yn nodi'r gwaith sydd wedi ei wneud hyd yn hyn i weld pa mor bosib fyddai rhannu un ystafell reoli gyda'r gwasanaeth ambiwlans a'r heddlu yng Ngogledd Cymru.

3.2 Bod y Panel yn nodi'r ymrwymiad sydd yn y ddogfen Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Cymru i'r gwasanaethau brys edrych ar fentrau cydweithredol lle mae yn rhoi manteision yn weitredol ac yn rhoi'r gwerth gorau i bawb dan sylw.

3.3 Bod y Prif Swyddog Tân nawr yn cymryd rhan mewn prosiect dan reolaeth lawn gyda'r heddlu a'r gwasanaeth ambiwlans i ddatblygu'r datganiadau presennol o ymrwymiad yn fwriadau go iawn ar gyfer lleoli ystafelloedd rheoli'r gwasanaethau brys ar y cyd, gan adrodd yn rheolaidd i'r Panel Gweithredol ar y cynnydd.

3.4 Bod Cadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn cynrychioli'r awdurdod ar lefel wleidyddol ar fwrdd rheoli'r prosiect.